# HEDDWCH

Rhifyn 84 > Awst 2023 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

*Kristen Dvergsdal/Atomvappen*




## *DIOGELWN YR HAWL I BROTESTIO*

**Mae ein hawliau yn ffrwyth brwydro caled. Deillia llu ohonynt o frwydrau'r gorffennol gan wrthryfelwyr, siartwyr, streicwyr a swffragetiaid, o ymgyrchu dros gyfiawnder cymdeithasol a newid gwleidyddol. Bu CND wrth galon protestio erioed, ond bellach rydym yn wynebu deddfau newydd llym â'r bwriad o fygu protestio ac anghytuno. Ni ddylent ac ni chânt lwyddo.**

# HIROSHIMA—ANGHOFIO'R GWERSI?



Paul Peter Piech (1920-1996)

Cynhaliwyd uwchgynhadledd y G7 ym mis Mai eleni yn Hiroshima. Lleoliad sobreiddiol, a does bosib nad oedd hwn yn adeg ac yn lle i oedi a meddwl. Galwai'r communiqué a'i dilynodd am gryfhau 'ymdrechion i ddiarfogi ac atal ymlediad.

Fodd bynnag, roedd y communiqué hefyd yn galw am barhau â'r rhyfel yn Wcráin, ffynhonnell debycaf gwrthdaro niwclear ar hyn o bryd, 'cyhyd ag y cymer'. Cynyddodd gwrthryfel grwp Wagner ar Fehefin 24 y perygl a'i gwneud hi'n fwy anodd byth rhagweld y canlyniadau. Mae penderfyniad Biden i anfon bomiau clwstwr i Wcráin yn ddychrynllyd.

Mae'r communiqué hefyd yn cyfeirio at ddiogelwch yn yr Indo-Fôr Tawel, yn amlwg yng nghyd-destun AUKUS (na chyfeiriwyd ato), sy'n cynyddu tensiwn gyda China a thanseilio'r Cytundeb Atal Ymlediad. Dichon bod y mymryn bach diweddar o gysylltiadau diplomyddol rhwng UDA a China yn cynnig briwsionyn o gysur.

Mae nifer yr arfau niwclear yn y byd bellach wedi codi i 12,512. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn ein rhybuddio bod gan Brydain ei hun stoc ddigonol o blwtoniwm i wneud bron i 20,000 o arfbennau niwclear.

Mae dioddefwyr Hiroshima ym 1945 yn haeddu mwy na geiriau gwag.

**PHILIP STEELE**

### *Yn y rhifyn hwn*


| | |
|---|---|
| Diogelwn ein hawl i brotestio | 3 |
| Robotiaid sy'n lladd | 4 |
| Cam i'r ochr dywyll gyda DARC? | 6 |
| Yr olygfa o Freudeth | 7 |
| Uwchgynhadledd heddwch Fienna | 8 |
| Lakenheath: NA i niwcs yr UD | 9 |
| Eisteddfod Genedlaethol 2023 | 10 |
| Gorymdaith: Trawsfynydd i'r Maes | 10 |
| Cymru-Palesteina | 11 |
| O Fôn i Fynwy | 12 |
| Newidiadau yn nhîm CND Cymru | 14 |
| Drama ar daith: *The Mistake* | 15 |
| Cysylltiadau | 16 |

# DIOGELWN EIN HAWL I BROTESTIO

*Mae **Angle Zelter** yn eriolydd rhyngwladol dros weithredu uniongyrchol di-drais ac yn awdur Activism for Life (Luath Press, 2021).*



Trident Ploughshares

**Bu 'cloi breichiau' yn dacteg gyffredin ym mhrotestiadau Faslane ers blynyddoedd lawer**

Welodd y DU erioed gymaint o brotestwyr, na chymaint o resymau dros brotestio. Mae gweithredwyr hinsawdd yn ceisio atal y diwydiannau tanwydd ffosil ac ynni niwclear, a hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac amgylcheddwyr yn ceisio llacio gafael amaeth gorfforaethol. Mae protestwyr heddwch yn ceisio atal 'ffeiriau' arfau rhag gwerthu arfau i ddilornwyr hawliau dynol, yn cynnwys Israel a Saudi Arabia, yn ogystal â gwrthwynebu arfau niwclear. Mae gweithredwyr hawliau dynol yn gweithio yn erbyn distewi'r rhyddid i lefaru.

Mae dinasyddion pryderus, heddychlon yn gorymdeithio ac yn blocio, ond hefyd yn torri ffenestri a pheiriannau, yn taflu paent coch ac yn meddiannu swyddfeydd corfforaethau barus, sydd ond yn meddwl am gynyddu elw, waeth beth fo'r costau dynol ac amgylcheddol.

Rydym yn cael effaith, yn costio arian, yn newid canfyddiad y cyhoedd. Dyma pam mae'r llywodraeth wedi cyflwyno deddfau llymach byth i atal ein hawl ddemocrataidd i brotestio. Gwell gan ein llywodraeth etholedig warchod y diwydiannau tanwydd ffosil a chynhyrchu arfau na pharchu barn ei phobl ei hun. Gwrthodant gydnabod bod protest yn hanfodol i unrhyw system ddemocrataidd go iawn, i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, ac atal anghyfiawnder mawr.

Roedd deddfwriaeth newydd, a gyflwynwyd yn 2022-23, yn cynnwys y Ddeddf Trefn Gyhoeddus â'r bwriad pennaf o atal amharu ar fuddiannau corfforaethol neu fusnes. Mae'n cyfyngu ar brotestio effeithiol drwy gyfyngu ar faint o sŵn y cawn ei wneud, yn troseddoli 'cloi breichiau' a'n cyhuddo o 'niwsans cyhoeddus'. Mae Gorchmynion Atal Amharu Difrifol yn atal unigolyn rhag cysylltu ag eraill a enwyd, mynd i ardaloedd penodol, neu fynychu protestiadau, a gallant arwain at dagio electronig fel rhan o'i orfodaeth.

Mae barnwyr Llys y Goron yn gwrthod caniatáu i reithwyr glywed cymhellion ymgyrchwyr, a allai gael eu cyhuddo o ddirmyg llys am ddefnyddio'r geiriau newid hinsawdd, olew neu nwy!

**Rydym yn gweld y nifer fwyaf o ymgyrchwyr yn cael eu carcharu ers degawdau, ynghyd â chynnydd aruthrol mewn casglu gwybodaeth trwy ddulliau ymyrrol. Mae hyn yn effeithio'n iasol ar barodrwydd pobl i brotestio. Mae'n llywodraeth yn troi'n unbennaeth awdurdodaidd, ormesol sy'n hybu buddiannau corfforaethol a bancio.**

Yn hytrach na bod ag ofn, rhaid i ni gynyddu ein gwrthsafiad di-drais. Dangosodd protest Big One fis Ebrill eleni, a drefnwyd gan XR yn Llundain, sut y gall gwahanol fudiadau roi gwahaniaethau o'r neilltu a chydweithio. Nawr yn fwy nag erioed rhaid i ni estyn allan i'r cyhoedd a rhybuddio pawb o'r hyn sy'n digwydd – cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

**ANGIE ZELTER**

# MAE'N BRYD ATAL Y DUEDD TUAG AT ROBOTIAID SY'N LLADD

*Mae* **PETER BURT** *yn ymchwilydd gyda Drone Wars UK.*



MoD

***Gall drôn Reaper gludo bomiau neu daflegrau, neu gadw gwyliadwriaeth.***

Yn 2018, cyhoeddodd Drone Wars UK *Off the Leash*, astudiaeth i ddatblygiad dronau di-beilot arfog – 'robotiaid lladd' sy'n gallu gweithredu heb reolaeth ddynol. Bum mlynedd yn ddiweddarach, esblygodd sawl maes yr ymchwiliwyd iddynt yn allu milwrol go iawn. Mae'r llynges yn gweithredu llongau sgubo ffrwydron di-griw ac yn arbrofi â llongau tanfor di-griw. Mae'r awyrlu'n arbrofi â dronau a all weithredu gyda'i gilydd fel haid ymreolus.

Mae'r systemau hyn yn defnyddio cyfrifiaduraeth uwch a roboteg, a dim ond gronyn yw hyn o'r llu o raglenni AI (deallusrwydd artiffisial) arloesol sydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Hyd yma, dim ond tasgau syml mewn amgylcheddau cymharol syml y gall y systemau hyn eu cyflawni, ond mae'r WA yn eiddgar i ecsploetio posibiliadau AI.

### *Peryglon a hawliau*

Dengys profiad o wrthdaro diweddar ein bod yn dechrau gweld cenhedlaeth newydd o systemau arfau sydd â llai a llai o reolaeth ddynol drostynt.

Bu defnyddio systemau amddiffyn awyrol awtomataidd yn beth cyffredin ers amser maith. Er nad ydynt yn gwbl ymreolus, gyda gweithredwr dynol i fod yn eu rheoli, mae ganddynt nodweddion cymhleth a reolir gan gyfrifiadur ac sy'n fwyfwy ymreolus.

Tri phrif achos methiannau yw cyflymder gweithrediad y systemau; cymhlethdod y tasgau a gyflawnir ganddynt; a'r gofynion a osodant ar weithredwyr dynol. Wrth i fwyfwy o dasgau gael eu dirprwyo i systemau cyfrifiadurol, mae gweithredwyr dynol systemau amddiffyn awyr yn newid o fod yn rheolwyr gweithredol i fod yn oruchwylwyr goddefol, gan arwain at rai camgymeriadau trasig.

Mae ymreolaeth a alluogir gan gyfrifiadur yn seiliedig ar dechnolegau cymhleth, ac aneglur yn aml, nad yw'r gweithredwr yn eu deall yn glir. Mae'n bygwth hawliau dynol ac yn codi problemau o ran cydymffurfio â'r gyfraith ar wrthdaro arfog.

### *Gwrthdaro cyfredol*

Mae AI a thechnoleg ymreolus ar hyn o bryd yn chwarae rhan bwysig yn rhyfel Wcráin. Mae cwmni Palantir o'r UD, sy'n arbenigo mewn datblygu technolegau AI at ddibenion milwrol a gwyliadwriaeth, yn ymffrostio bod ei feddalwedd




Cymdeithas y Cymod

***Protest yn erbyn yr Adar Angau hyn yn Llanbedr, Gwynedd. Mae llawer o gwmnïau yng Nghymru bellach yn gweithio ar ddatblygu technolegau ymosod a chadw gwyliadwraeth newydd.***

yn 'gyfrifol am y rhan fwyaf o'r targedu yn Wcráin'.

Nid yw hi'n glir sut y defnyddiwyd 'robot-laddwyr' yn Wcráin. Mae gwybodaeth y cyhoedd am alluoedd ymreolus y fath arfau yn amwys ac efallai'n seiliedig ar honiadau gormodol gan y gwneuthurwr. Gellir gweithredu'r arfau mewn modd ymreolus neu o dan reolaeth ddynol. Nid oes tystiolaeth eto i ddangos a fu'r rhai a ddefnyddir yn Wcráin yn gweithredu'n ymreolus.

Mae honiadau hefyd y gallai arfau oediog sy'n gweithredu'n ymreolus fod wedi cael eu defnyddio mewn ymladd yn Libya. Mae'r rhain yn seiliedig ar adroddiad i gyngor diogelwch y CU gan banel arbenigol y CU ar Libya, a ddywedodd fod drôn Kargu-2 a gynhyrchwyd yn Nhwrci wedi 'hela i lawr ac ymosod o bell ar' luoedd gwladol Libya yn 2020. Unwaith eto, ymddengys bod hyn yn seiliedig ar honiadau gwneuthurwr yn hytrach na thystiolaeth glir.

Mae'r ddwy enghraifft hyn yn dangos bod angen pwyll parthed adroddiadau yn y cyfryngau. Ar yr un pryd, mae hefyd yn amlwg bod e AI, ynghyd â defnydd synwyryddion soffistigedig, yn caniatáu i systemau arfau cymhleth fod â lefelau cynyddol o ymreolaeth. Ar hyn o bryd, gall gweithredwr dynol gymeradwyo ymosodiad sy'n defnyddio'r arfau hyn – ond gallai uwchraddio'r system yn dechnegol ddileu'r gofyn am gymeradwyaeth gan fod dynol.

I ba gasgliad y gallwn ni ddod ynglŷn â defnyddio arfau oediog a systemau AI yn rhyfel Wcráin a gwrthdaro diweddar arall?

Dylid nodi na allwn ddweud i sicrwydd bod systemau arfau ymreolus y tu allan i reolaeth ddynol bellach yn cael eu defnyddio fel arfer – na bod defnyddio systemau o'r fath mewn gwrthdaro yn anochel. Nid yw'n golygu chwaith bod y Rwsiaid yn arwain y ffordd mewn datblygu arfau'n seiliedig ar AI na bod angen i'r Gorllewin ddatblygu arfau tebyg er mwyn 'cadw i fyny' â Rwsia, China, neu luoedd arfog eraill. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod systemau arfau modern yn mynd yn fwyfwy ymreolus eu medrau, a bod peryglon yn hyn o beth.

***Galw am gytundeb***

Mae angen gweithredu nawr. Mae'r ymgyrch fyd-eang i atal Robotiaid sy'n Lladd yn galw am gytundeb newydd i wahardd systemau sy'n targedu bodau dynol, neu rai na ellir eu rheoli'n effeithiol gan fodau dynol. Rhaid i weithredwyr dynol ddeall swyddogaethau'r system a chael eu dal yn gyfrifol am unrhyw ganlyniadau.

Mae mwyafrif o wledydd y byd yn cefnogi negydu cytundeb newydd, gan gynnwys China ac Iran. Mae'r gwrthwynebwyr yn cynnwys Rwsia ac UDA a'i chynghreiriaid, yn cynnwys y DU.

**PETER BURT**

*Diolch i **Peace News**. Am fersiwn llawn o'r erthygl hon a gwybodaeth bellach, ymweler â **www.peacenews.info**. Gweler hefyd **www.ukstopkillerrobots.org.uk** am newyddion ymgyrchu a gweithredu.*



***Lladd o hirbell: mae dronau ymosod yn herio dewisiadau moesol y ddynolryw***

# CAM I'R OCHR DYWYLL GYDA DARC?

**DAVID WEBB** *yw cynullydd y Rhwydwaith Byd-eang yn Erbyn Arfau a Phŵer Niwclear yn y Gofod*

Ym mis Gorffennaf 2021 adroddodd y BBC fod Llu Gofod yr UD am adeiladu tair canolfan radar enfawr ar draws y byd, fel rhan o system fyd-eang i olrhain gwrthrychau yn y gofod dwfn. Y lleoliadau fyddai Tecsas, Awstralia a Phrydain. Ni chadarnhawyd union leoliad safle Prydain eto, ond un ymgeisydd posib yw Barics Cawdor ger Breudeth, nid nepell o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Pe câi ei ddatblygu byddai'r safle'n cynnwys cyfanswm o 21 o ddysglau derbyn tua 20m o uchder a 15m o ddiamedr; chwe dysgl drosglwyddo o'r un maint; adeilad gweithredu, a ffensys amgylchol a diogelwch.

***Dyfnder y gofod***

Byddai'r radar pwerus yn rhan o system 'Deep Space Advanced Radar Capability' (DARC) newydd, sydd yn uwchraddiad ar Rwydwaith Gwyliadwriaeth Gofod (SSN) yr UD sy'n cynnwys y radar pyramidaidd yn Fylingdales, Swydd Efrog. Bydd DARC yn gallu 'gweld' yn llawer pellach na Fylingdales. Byddai'r radar yn cael ei ddefnyddio i 'ganfod, olrhain, adnabod a nodweddu gwrthrychau' mewn orbit geosyncronaidd, ar uchder o 36,000 km, lle mae lleolir llawer o loerennau gwylio a chyfathrebu milwrol. Byddai'n cyfrannu at raglen Ymwybyddiaeth Parth y Gofod (SDA) yr UD.

Daw data SDA o wahanol synwyryddion yn y gofod a thelesgopau a radar ar y ddaear, ac fe'i cyfunir â ffynonellau cudd-wybodaeth i gynhyrchu darlun o amgylchedd y gofod. Mae'n galluogi lluoedd arfog i fonitro gweithgareddau eraill yn y gofod a gall ddarparu data ar gyfer targedu systemau gwrth-loeren. Dengys y rhyfel yn Wcráin mor bwysig yw adnoddau gofod i luoedd arfog, a nododd Adran Rheolaeth Gofod yr UD ei nod o ddominyddu a rheoli'r gofod yn ei 'Vision for 2020' ym 1997. Ond mae dominyddu rhanbarth yn gofyn am y gallu i fonitro popeth sy'n digwydd yno a dyma lle mae SDA yn cyfrannu.

Dywed yr UD yn dweud bod ei goruchafiaeth yn y gofod o dan fygythiad ac ym mis Mai, adroddwyd i'r Brigadydd Gadfridog Jesse Morehouse o Reolaeth Gofod yr UD ddweud nad oedd rhyfelgarwch Rwsia a gweledigaeth China o fod yn bŵer gofod pennaf y byd erbyn canol y ganrif yn gadael 'dim dewis' i'r UD ond paratoi ar gyfer sgarmesau orbitol: 'mae Unol Daleithiau America yn barod i ymladd heno yn y gofod os bydd rhaid.'

**Os lleolir DARC ym Mreudeth, bydd llywodraeth y DU yn sicrhau bod pobl Cymru yn mynd yn rhan o unrhyw ryfel yn y gofod yn y dyfodol.**

*Mae fideo am DARC a rheolaeth filwrol yr UD ar 'barth y gofod', a grëwyd gan Paul Mobbs yn 2021, i'w weld yma:* ***https://www.youtube.com/watch?v=-KhkdjqSNic***

**DAVID WEBB**



# YR OLYGFA O FREUDETH

*Déjà vu? Roedd* **ROY JONES** *yn un o sylfaenwyr Ymgyrch Sir Benfro yn Erbyn Radar (PARC) ym 1990. Os daw DARC i Freudeth, yn sicr fe fydd gwrthwynebiad o'r newydd.*






Gwn beth yw pŵer cymuned pan fydd yn uno i atal cyfleuster milwrol rhag cael ei adeiladu. Dechreuodd PARC fel grŵp o ddim ond pedwar teulu yn Solfach, ym Mhlwy'r Groes. Tyfodd y grŵp yn gyflym nes i'r cynlluniau gael eu dileu yn derfynol.

***Hanes yr ymgyrch***

Siaradodd Roger Coghill, gwyddonydd a fu'n ymchwilio i effeithiau negyddol ymbelydredd electromagnetig, mewn neuaddau pentref. Helpodd y papur newydd lleol i ledaenu'r gair am risgiau i iechyd, yr amgylchedd a thwristiaeth. Cynhaliwyd pob math o ddigwyddiadau codi arian. Anfonwyd pecynnau gwybodaeth at unrhyw ffigur cyhoeddus a allai roi pwysau ar y llywodraeth. Defnyddiwyd sianeli yn UDA hefyd i gyrraedd Seneddwyr oedd yn cydymdeimlo â'n hachos. Mewn cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gaffael Amddiffyn, llenwyd y neuadd â phobl yn dal placardiau yn dweud NA. Trefnodd Plaid Cymru orymdaith a rali o Gadeirlan Tyddewi, gyda Dafydd Iwan a Dafydd Wigley. Ymhlith y siaradwyr a alwai am ddileu'r cynnig oedd y Cynghorydd Nick Ainger (AS Llafur yn ddiweddarach). Daeth cefnogaeth hefyd gan Tony Benn ac, yn y pen draw, Neil Kinnock.

***A nawr, beth?***

Mae'r cynnig presennol ar gyfer DARC yn debygol o godi pryderon tebyg, gan gynnwys iechyd (systemau imiwnedd gwan a mwy o bosibilrwydd datblygu lewcemia) a'r effaith amgylcheddol. Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru i Gyngor Sir Penfro yn ystyried 'y gall fod effeithiau gweledol sylweddol ar y Parc Cenedlaethol'.

Mae'n anodd bod yn sicr, gyda'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, lle yn union y lleolir y 27 dysgl. Mae fy ymchwil yn awgrymu nad oes modd yn y byd na fydd pentrefi Trefgarn Owen, Llan-lwy a Phenycwm yn agos iawn at y dysglau, yn ogystal â Pharc Busnes Breudeth (hen Wersyll Llynges yr UD) a Maes Carafannau Park Hall.

Mae Dogfen Gwmpasu AEA Cyngor Sir Benfro yn mynegi pryder am yr ardal (anhysbys hyd yma) lle gosodir y dysglau, ac yn awgrymu o ystyried 'pwysigrwydd derbynnydd Carn Llidi', y dylai'r asesiadau effaith gynnwys yr ardal hon hefyd. Gan nad ymddengys bod unrhyw 'dderbynnydd' yn bodoli ar Garn Llidi, mae hyn yn awgrymu y gallai'r dysglau gael eu gwasgaru'n llawer ehangach na'r disgwyl.

Pe bai hyn yn wir, credaf na fyddai modd atal cryfder gwrthwynebiad y cyhoedd. Dwi'n bwriadu aildanio PARC ac atal y DARC rhag ennill troedle ym mhenrhyn gwerthfawr hen gantref Pebidiog.

**ROY JONES**

# CEISIO HEDDWCH YN WCRÁIN

*Mae* **WENDY JONES** *yn Grynwraig o ogledd Cymru, a fu'n astudio yn Rwsia. Teithiodd i Fienna ar gyfer yr Uwchgynhadledd ddiweddar dros Heddwch yn Wcráin.*



Wendy Jones

***Cafodd y gynhadledd ei chanslo gan y ganolfan wreiddiol wedi i Lysgennad Wcráin a rhai aelodau o'r wasg wrthwynebu ei chynnal. Symudwydd y digwyddiad i'r neuadd gyngerdd hon.***

Ar y $10^{\text{fed}}$ a'r $11^{\text{fed}}$ o Fehefin cynhaliwyd Uwchgynhadledd Ryngwladol dros Heddwch yn Wcráin yn Fienna. Pam Fienna? Mae Awstria yn wlad niwtral ac yn 'ddinas y Cenhedloedd Unedig' ac yn gartref i Ysgrifenyddiaeth yr OSCE (y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop) sydd wedi bod yn monitro'r sefyllfa yn y Donbas ers llofnodi cytundeb Minsk 11.

Newidiwyd y lleoliad dau ddiwrnod o flaen llaw. Er hynny, llwyddwyd i gynnal Cynhadledd a lleisiwyd amrywiaeth o agweddau yn ymdrin â tharddiadau'r rhyfel a ffyrdd i'w datrys.

Condemniwyd goresgyniad anghyfreithlon Rwsia o Wcráin gan y Gynhadledd ac ar yr un pryd, cydnabuwyd cydgyfrifoldeb NATO am y gwrthdaro hirdymor hwn fel un o lawer o enghreifftiau o dorri cyfraith ryngwladol. Mae'n dinistrio amgylchedd a seilwaith y wlad, yn achosi prisiau bwyd ac ynni cynyddol ledled y byd, yn gwaethygu tlodi a newyn – yn enwedig yn y De byd-eang – ac yn bygwth y byd i gyd â rhyfel niwclear.

Un o'r ffaeleddau a daeth yn amlwg, oedd diffyg chwant am heddwch yn y wasg. Mor glòs yw lleisiau prif-ffrwd y wasg yn America, Prydain, Rwsia ac Ewrop i'r lleisiau yn ein llywodraethau o blaid rhyfel ac arfau yn hytrach na galw am heddwch. Rydym i gyd yn ymwybodol bellach, am boethi byd-eang a'r her sy'n wynebu dynoliaeth, dyna'r pwynt a wnaethpwyd gan Noam Chomsky dros fideo i'r gynhadledd, peryg y bydd y rhyfel yma yn ein chwalu i gyd. Lleisiwyd y dilynol gan Dr. Yurii Sheliazhenko, cynrychiolwr Mudiad Heddwch Wcráin: 'Os nad ydych chi'n hoffi'r llu o gynlluniau heddwch a gynigir gan drafodwyr Wcreineg a Rwsiaidd ym Minsk ac Istanbul, gan y Fatican, China a llawer o wledydd De Byd-eang, mae croeso i chi gynnig eich cynllun heddwch eich hun.'

Ymysg prif gasgliadau'r Gynhadledd mae'r dilynol:

- Mae trefnwyr yr Uwchgynhadledd Ryngwladol dros Heddwch yn Wcráin, yn galw ar arweinwyr ym mhob gwlad i weithredu i gefnogi cadoediad uniongyrchol a thrafodaethau i ddod â'r rhyfel yn Wcráin i ben.
- Wrth gondemnio goresgyniad anghyfreithlon Rwsia o Wcráin, cydnabuwyd methiant y sefydliadau a sefydlwyd i sicrhau heddwch a diogelwch yn Ewrop ac arweiniodd methiant diplomyddiaeth

at ryfel. Nawr mae angen diplomyddiaeth ar frys i ddod â'r rhyfel i ben cyn iddo ddinistrio Wcráin a pheryglu dynoliaeth.

- Gall llawer mwy o farwolaethau a dioddefaint ddigwydd eto os bydd y gwrthdaro'n dwysáu i'r defnydd o arfau niwclear, risg sy'n uwch heddiw nag ar unrhyw adeg ers argyfwng taflegrau Ciwba.
- Rhaid i lwybr heddwch fod yn seiliedig ar egwyddorion diogelwch cyffredin, parch at hawliau dynol rhyngwladol a hunan-benderfyniad pob cymuned.
- Rydym yn cefnogi pob trafodaeth sy'n sefyll dros resymeg heddwch yn lle resymeg rhyfel.
- Rydym yn cadarnhau ein cefnogaeth i gymdeithas sifil Wcráin sy'n amddiffyn eu hawliau. Rydym yn ymrwymo ein hunain i gryfhau'r ddeialog gydá'r rhai yn Rwsia a Belarus sy'n peryglu eu bywydau gan wrthwynebu rhyfel ac amddiffyn democratiaeth.
- Rydym yn galw ar gymdeithas sifil ym mhob gwlad i ymuno â ni mewn wythnos o weithredu byd-eang (dydd Sadwrn 30 Medi - dydd Sul 8 Hydref 2023) yn galw am gadoediad ar unwaith a thrafodaethau heddwch i ddod â'r rhyfel hwn i ben.

**WENDY JONES**

# RAF LAKENHEATH: DWEDWN NA I NIWCS UD

**'Fel aelodau o CND Cymru, roeddem yn falch o sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda chymrodyr o'r mudiad ehangach i leisio, yn uchel ac yn glir, ein gwrthwynebiad i leoli arfau niwclear yr UD yn Lakenheath. Yn ystod cyfnod o densiynau rhyngwladol digynsail o uchel, mae'r cam dwysaol hwn gan lywodraethau San Steffan a'r UD nid yn unig yn methu ein cadw'n ddiogel, ond yn cynyddu'r tebygolrwydd o ryfel thermoniwclear. Mae llusgo dynoliaeth yn nes beunydd at ymyl dibyn y bygythiad dirfodol hwn yn gwbl annerbyniol ac rydym yn unedig yn condemnio'r herfeiddio gwaradwyddus hwn.'**

**SAM BANNON**

Ddydd Sadwrn, 20 Mai, teithiodd grŵp o aelodau CND Cymru o Gymru i RAF Lakenheath yn Suffolk, i ymuno â gwrthdystwyr CND o bob rhan o Brydain i gondemnio lleoli arfau niwclear yr UD yn y gwersyll.

Clywodd gwrthdystwyr areithiau gan yr ymgyrchydd heddwch Guido van Leemput o'r Iseldiroedd; yr ymgyrchydd heddwch Reiner Braun o'r Almaen; Cadeirydd CND, Tom Unterrainer; cynullydd Clymblaid Atal y Rhyfel, Lindsey German; Roger Mackenzie, Morning Star; y dramodydd Michael Mears; y Cyng Gary Champion a Dr Peter Burt o Drone Wars UK.

Cynhaliwyd gweithdai defnyddiol, megis sut i adnabod awyrennau milwrol, yn ogystal â gwneud baneri. Roedd llu o faneri o wahanol grwpiau heddwch a chyfiawnder, undebau llafur a phleidiau gwleidyddol ynghlwm wrth ffens amgylchynol y gwersyll, yn arddangos cryfder ac undod gweithredu dros heddwch a gwrth-niwclear.



Kristen Dvergsdal /Atomvappen

*Protest RAF Lakenheath, Mai 2023*

# "A OES HEDDWCH?"




**Eleni mae'r Eisteddfod Genedlaethoi Llŷn ac Eifionydd yn dod i Boduan, ger Pwllhelii o $5^{ed}$ i $12^{fed}$ Awst. Fel erioed, bydd yn cynnig cyfle gwych ar gyfer ymgyrchu heddwch a rhwydwiethio. Galwch i mewn yn y Babell Heddwch.**

Dewch i'n helpu! 'Dan ni angen wynebau hen a newydd ar y rota a chewch tocyn am ddim os medrwch roi o leia hanner diwrnod o'ch amser.

S'dim rhaid gwybod pob dim i wirfoddoli. Bydd gweithgareddau i blant, a rhywfaint o nwyddau ar werth. Cysylltwch â Sioned ar *sionedhuws@hotmail.com* neu gadewch neges ar *01766 772788*.

Herio militariaeth ar y cyd bydd y thema sy'n ein clymu at ein gilydd fel mudiadau heddwch yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd.

Bydd map enfawr wrth gefn y Babell yn tynnu sylw at y safleoedd militaraidd yng Nghymru. Bydd y gwahanol fudiadau sy ynghlwm efo'r Babell yn trefnu gweithgaredd gwahanol yn ddyddiol:

- e.e. tynnu sylw at y cysylltiad rhwng pŵer niwclear ac arfau niwclear
- rhoi dadonsoddiad dyfnach o'r rhyfeloedd yn Wcráin a gwledydd eraill yn y byd, a pham mae cadoediad a chyfle i drefnu heddwch cyfiawn mor bwysig
- a sut medrwn gyfrannu at Apêl Heddwch cyfoes a chodi ymwybyddiaeth i ddathlu 100 mlynedd Deiseb Heddwch y Menywod.

**Bydd arddangosfa Heddwch Nain/ Mamgu – Byd Di-ryfel – i'w gweld yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog LL53 7TT, dros wythnos yr Eisteddfod.**

## Gweithredu>Heddwch

***TAITH TRAWS > EISTEDDFOD***

***$2^{il}$—$6^{ed}$ Awst 2023***

Bydd ail ymdaith faith yn erbyn Adweithyddion Niwclear Modylaidd Bychain yn Nhrawsfynydd ac Wylfa yn digwydd cyn yr Eisteddfod. Eleni rydym yn cychwyn o Drawsfynydd ar Awst yr $2^{il}$, ac yn cyrraedd y Maes ym Moduan ar y $6^{ed}$ (Diwrnod Hiroshima). Ymunwch â ni! Os oes gennych ddiddordeb mewn cerdded neu gefnogi, anfonwch e-bost at *Sam Bannon* yn: *sampbannon@gmail.com*



*Mae'r trais ym Mhalestina oresgynedig wedi cynyddu'n ddybryd yr haf yma, gyda gweithredoedd treisgar gan ymsefydlwyr Israeli a chyrchoedd milwrol gan Israel. Lladdwyd llawer o blant. Er mwyn atal rhagor o golli bywyd y targedodd protestwyr Palestine Action ffatri Teledyne Labtech yn Llanandras ym Mhowys.*




*Palestine Action*

***Paent coch: Ffatri yn Llanandras ar ôl y protest***



*Philip Steele*

***Gwylnos i gefnogi y tu allan Lys y Goron, Caernarfon***

# ACHOS TELEDYNE

Cwmni o'r UD sy'n gweithio ym meysydd electroneg awyrofod ac amddiffyn, yw Teledyne. Mae gan Teledyne Labtech ffatri yn Llanandras ym Mhowys sydd yn darparu cydrannau ar gyfer taflegrau, dronau milwrol, a systemau radar a gwyliadwraeth a ddefnyddir gan gwmnau sy'n cyflenwi offer i Israel. Ar 9fed Rhagfyr y llynedd, torrodd pedwar protestiwr Palestine Action i mewn a dinistrio offer yr honnir ei fod yn werth mwyn na £1.2 miliwn. Yn yr achos llys rhagarweiniol yn Wrecsam cafodd y pedwar protestiwr eu cadw yn y ddalfa. Plediodd tri yn euog. Plediodd y bedwaredd, Ruth Hogg o Aberystwyth, yn ddieuog. Cafodd ei hanfon i sefyll ei phrawf yn Llys y Goron Caernarfon ym mis Mai eleni. Yn dyst rhagorol ac egwyddorol, â thystlythyron cymeriad rhagorol, siaradodd Ruth yn deimladwy ac yn eglur trwy gydol ei hachos llys. Fe'i cafwyd yn euog. Dedfrydwyd y pedwar diffynnydd yn ôl yn Wrecsam ar y 29 Mehefin. Cafodd y tri a blediodd yn euog eu dedfrydu i 24 mis o garchar, a Ruth i 27 mis, yn cynnwys yr amser yr oedd eisoes wedi ei dreulio yn y ddalfa.

# O GAERDYDD I GAZA



*Gaza Freedom Flotilla*

Wrth i Heddwch fynd i'r wasg ym mis Gorffennaf, bydd cangen Caerdydd o Ymgyrch Cefnogi Palesteina yn croesawu *Handala*, llong y Llynges Ryddid, i'r ddinas. Bydd y llynges yn hwylio unwaith eto y flwyddwn nesaf i dorri'r gwarchae 16-mlynedd o hyd yn Gaza, gan ganolbwyntio ar gyflwr plant a phobl ifanc sy'n fwy na hanner poblogaeth gaeth Gaza. Mae'r ymweliad pedwar diwrnod â Bae Caerdydd (7fed-10fed Gorffennaf) yn cynnwys cyfarfod â'r Senedd yn y Pierhead, dan ofal Heledd Fychan AS, a chyfarfod cyhoeddus yn y Deml Heddwch, gyda Beth Winter AS a Zohar Regev Chamberlain o'r llynges, gyda Mairead Canavan (NEU Cymru) yn cadeirio. Bydd gweithred BDS ym Manc Barclays yn Working Street, picnic a phryd bwyd ffarwelio cyn i'r llong hwylio ymlaen i Fryste.

# O FÔN I FYNWY AROUND WALES


***Westinghouse i Ynys Môn***
Mae corfforaeth niwclear Westinghouse am agor hyb Gwasanaethau Amgylcheddol ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (M-Sparc), **Ynys Môn**. Ei ffocws fydd datgomisiynu, gan gefnogi'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), Magnox a chyrff eraill yn y maes. Da hynny, ond mae posibilrwydd hefyd y bydd Westinghouse yn cyflenwi adweithyddion newydd i'r rhanbarth, felly mae pryder y gallai hyn fod yn droed yn y drws er creu hinsawdd ffafriol yn y dyfodol ar gyfer y gorsafoedd ynni niwclear newydd y mae AS Toriaidd yr ynys, Virginia Crosbie, yn taer weddïo amdanynt.

***Ffiniau newydd***
Yn y cyfnod gwleidyddol gorffwyll hwn, mae'r posibilrwydd o etholiad cyffredinol yn San Steffan, neu lu o isetholiadau, yn bresennol beunydd. Bydd y cydbwysedd grym yng Nghymru erbyn 2024 yn llai posib ei ragweld, gan fod **Comisiwn Ffiniau Cymru** wedi argymell gostwng nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 32. Y nod yw adlewyrchu demograffeg yn decach, ac ni chaiff y trefniant hwn ei adolygu eto tan 2031. Yng Nghymru, dim ond Ynys Môn fydd yn aros yr un fath; mae eraill wedi mynd trwy broses ddigon mympwyol, gyda rhai'r o'r aelodau presennol heb gael eu dethol ar gyfer yr etholaeth newydd. P'run ai eich bod yn dethol ymgeisydd neu'n pleidleisio drostynt, cysylltwch â nhw i holi eu barn am arfau niwclear a phŵer niwclear, am heddwch a chyfiawnder a'r TPNW (Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear).

***Heddwch ac ewyllys da***
Ar y 18$^{fed}$ o Fai 2023 anfonodd yr **Urdd** ei Neges Heddwch ac Ewyllys Da oddi wrth ieuenctid Cymru at bobl ifanc ledled y byd. Dechreuwyd y traddodiad gan yr ymgyrchydd heddwch rhyngwladol, y Parch. Gwilym Davies, nôl yn 1922. Mae a wnelo neges 2023 â hiliaeth: gweithredu'n uniongyrchol i ddatgymalu hiliaeth systemig; herio rhagfarnau diarwybod; condemnio hiliaeth bob tro y caiff ei weld.

***Y genhedlaeth nesaf***
Wrth i ni fynd i'r wasg, bydd Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) ac Eisteddfod Ryngwladol **Llangollen** unwaith eto yn cynnal Seremoni Wobrwyo Tangnefeddwyr Ifanc ar gyfer: Tangnefeddwr y Flwyddyn, Dinesydd Byd-eang y Flwyddyn, Sefydliad Heddwch Ieuenctid y Flwyddyn, Awdur Heddwch ac Artist Heddwch (cynradd ac uwchradd). Mae safon y ceisiadau bob amser yn ysbrydoliaeth ar gyfer y dyfodol.

***Niwcs ac annibyniaeth***
Gorymdeithiodd 6,000 neu 7,000 o bobl dros annibyniaeth yn **Abertawe** ar Fai'r 20$^{fed}$ mewn rali a drefnwyd gan Yes Cymru a Phawb Dan Un Faner (AUOB). Canlyniad arolwg barn ar yr 17$^{eg}$-18$^{fed}$ o Fehefin oedd 34%




WCIA

***Awdur Heddwch y Flwyddyn 2022 oedd Zinzi Sibanda o Benarth, a sgrifennodd am hanes y frwydr dros gydraddoldeb hiliol a'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru heddiw.***

# O FÔN I FYNWY AROUND WALES


Yes Cymru

*Cefnogwyr annibyniaeth yn Abertawe ym mis Mai*

o blaid. Cynhelir Rali arall ym **Mangor** ar y 23ain o Fedi. P'run a ydych yn cefnogi annibyniaeth neu alwad Mark Drakeford am fwy o ddatganoli, neu'r naill na'r llall o'r opsiynau hyn, mae rôl arfau niwclear, pŵer niwclear, diwydiannau amddiffyn a chynghreiriau milwrol rhyngwladol yn ganolog i'r ddadl wleidyddol. Ar Fehefin y 19eg, addawodd arweinydd newydd yr SNP, Humza Yousaf, i gael gwared ar bob arf niwclear o'r Alban ar ôl annibyniaeth.

***Arddangosfa'r Mala Heddwch***
Cynhaliwyd arddangosfa i ddathlu 20 mlwyddiant sefydliad aml-ffydd y Mala Heddwch yn Amgueddfa Abertawe rhwng 27 Mehefin a 1 Gorffennaf. Roedd yn cynnwys arddangosebau o ysgolion lleol. Mae'r Mala Heddwch wedi cynhyrchu CD (a fersiwn MP3) i nodi'r achlysur, gyda Steve Balsamo, caneuon gan Lee Michael Walton, a lleisiau tri chôr ysgol o Abertawe: Ysgol Gynradd Penllergaer, Ysgol Gymraeg Tan-y-Lan ac Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph, Clydach. Mae'r CD, *Music for a More Compassionate World*, ar gael am £10 + cludiant: cysylltwch â ***info@peacemala.org.uk***

***Cymru: Cenedl Noddfa?***
Mae rhyfel, erledigaeth, tlodi a newid hinsawdd yn dal i yrru tonnau o ffoaduriaid a cheiswyr lloches gwanobaith i wynebu peryglon cynyddol, fel y dangosodd y colledion trasig ar y môr ger glannau Groeg yr haf hwn. Mae croeswyr y Sianel yn dal i wynebu'r anhrefn, y creulondeb a'r styntiau gelyniaethus sy'n nodweddu cyfnod Suella Braverman fel Ysgrifennydd Cartref. Mewn pleidlais symbolaidd ar yr 21ain o Fehefin, pleidleisiodd y **Senedd** i wrthod cydsyniad i Fesur Ymfudo Anghyfreithlon San Steffan.

Ceir swyddfeydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn **Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam.** Mae'r penderfyniad i letya 207 o geiswyr lloches yng Ngwesty Parc y Strade yn Ffwrnes, **Llanelli**, o'r 3ydd o Orffennaf, yn hytrach na'u gwasgaru drwy'r gymuned, wedi cynhyrfu barn y cyhoedd. Fodd bynnag, mae grwpiau gwrth-hiliaeth a gwirfoddolwyr cefnogi ffoaduriaid ledled Cymru yn cynnig croeso ac yn helpu i wneud i bobl sy'n aml wedi eu trawmateiddio i deimlo'n gartrefol.



Cyngor Ffoaduriaid Cymru

*Ym mis Mehefin dyfarnodd y Llys Apêl fod y cynllun Rwanda yn anghyfreithlon*

# NEWIDIADAU YN CND CYMRU

*Nid mater o ffarwelio mo hyn, ond yn hytrach ad-drefnu o fewn y mudiad heddwch ehangach yng Nghymru. Ond mae'n amser da i bwyso a mesur, ac i ddiolch i Jill a Bethan Siân am eu gwaith caled dros y blynyddoedd – ynghyd â llu o'n cefnogwyr gwych. Etholir ein Cadeirydd newydd yn y CCB ym mis Medi (gweler t15). Mae'n bleser adrodd mai ein Hysgrifennydd Cenedlaethol newydd yw Dylan Lewis-Rowlands, y gwyddom y bydd yn dwyn gwaith CND Cymru yn ei flaen ar yr adeg dyngedfennol hon*



***Jill yn cwblhau ail dymor fel Cadeirydd***

Hoffai CND Cymru estyn diolch o waelod calon i Jill Evans sydd, ar ôl ymrwymiad hirfaith ac egnïol iawn, yn gadael ei swydd fel Cadeirydd CND Cymru.

Bu Jill, cyn-ASE Plaid Cymru, yn Gadeirydd CND Cymru rhwng 2001 a 2011, ac yna eto o 2019. Fel ymgyrchydd gwrth-niwclear er dyddiau coleg yn Aberystwyth, ymunodd Jill â gorymdaith 1981 i Greenham, yr un flwyddyn ag y mynychodd ei chyfarfod CND cyntaf yn y Rhondda. Meddai Jill, "O'r eiliad honno bu'r mudiad heddwch yn ganolog i 'mywyd i: cyfres o orymdeithiau, areithiau, protestiadau, gwersylloedd heddwch a chael fy restio! Ni allaf ddychmygu fy mywyd heb CND Cymru a'r llu o ffrindiau dwi wedi'u gwneud a phobl ddiddorol dwi wedi cwrdd â nhw."

Mae Jill yn deall bod Cymru a Mudiad Heddwch Cymru "yn dod â'r sefyllfa fyd-eang i'r lefel gymunedol ac yn rhoi rôl i bob un ohonom ni yn yr ymgyrch dros heddwch a diarfogi." Fel Aelod o Fwrdd yr Academi Heddwch, gwyddom y bydd yn parhau i weithio dros heddwch, hawliau dynol a diarfogi. Gan ddal yn rhan o dîm CND Cymru, mae hi'n ein sicrhau mai camu'n ôl yw hyn – nid sefyll i lawr.

**JILL GOUGH**



***Swydd newydd i Bethan Siân***

Llongyfarchiadau i Bethan Siân Jones, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru ers 2020, sydd wedi cael ei phenodi'n Rheolydd Datblygu Projectau cyntaf Academi Heddwch Cymru, sefydliad heddwch Cymru ei hun. Hoffai CND Cymru ddiolch o galon i Bethan am ei holl waith.

Bu Bethan yn ymchwilio i rôl merched ym mudiad heddwch Cymru yn yr 1980au ac arweiniodd orymdaith CND Cymru 2022 o Drawsfynydd i Wylfa i brotestio yn erbyn pŵer niwclear newydd.

Er iddi roi'r gorau i'w swydd gyflogedig, mae'n parhau i fod yn aelod gweithgar o'n Pwyllgor Gwaith a bydd yn dal i chwarae rhan allweddol. Mae Bethan wedi ymrwymo i'r nod o Gymru ddi-niwclear ac ni fydd pall ar ei gwaith i'w wireddu. Mae hi'n ysbrydoliaeth i bob un ohonom.

**JILL EVANS**



***Gair gan Dylan***
Dylan Lewis-Rowlands ydw i, ac rwyf wedi cymryd lle Bethan Siân fel Ysgrifennydd Cenedlaethol. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Bethan Siân am ei holl waith anhygoel fel yr Ysgrifennydd Cenedlaethol blaenorol.

Rwy'n gobeithio gweithio gyda'r Pwyllgor Gwaith, aelodau, a chwaer-sefydliadau i adeiladu a chryfhau'r mudiad heddwch a diarfogi ymhellach. Os dysgodd digwyddiadau diweddar unrhyw beth i ni, y ffaith bod ein mudiad mor werthfawr ag erioed yw hynny.

Rhaid inni ddod at ein gilydd a dadlau'r achos dros heddwch, dros drafod yn lle gwrthdaro. Dros y 12 mis nesaf, rwy'n gobeithio dechrau rhaglen o annog ein haelodau a'n partneriaid i ymgysylltu ar lefel ddyfnach â'n hymgyrchoedd a'n gwaith. Ein haelodau yw ein nerth. Os hoffech gysylltu â mi, gweler y manylion ar dud. 16. Byddwn wrth fy modd yn clywed unrhyw syniadau sydd gennych.

**DYLAN LEWIS-ROWLANDS**

## CND CYMRU CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

***16eg Medi 2023***
***Canolfan St Paul,***
***Aberystwyth SY23 2NN***
Croeso i bawb! Caniatewch amser ar gyfer parcio! Da chi, dewch â brechdanau gyda chi. Anfoner cynigion at yr Ysgrifennydd Cenedlaethol o leiaf 14 diwrnod o flaen llaw.

***Busnes***
**11.00—12.20**
Croeso, adroddiadau, cwestiynau a sylwadau
**12.30—12.50**
Ethol Cadeirydd newydd, datganiadau
**12.50—13.40**
Cynigion i'r CCB, pleidleisio, trafodaeth ar strategaeth

***Siaradwyr a Holi ac Ateb***
**13.50—14.20**
Breudeth a phroject DARC
**14.20**
Deiseb Heddwch y Menywod

## DRAMA AR DAITH

**THE MISTAKE gan Michael Mears Cyfarwyddwyd gan Rosamunde Hutt, perfformir gan Riko Nakazono a Michael Mears**
80 mun | 14+ | Saesneg

**MEDI 2023**
- 12fed nos Fawrth, 7.30pm **Caer** Wesley Church Centre
- 13eg nos Fercher, 7.30pm **Caernarfon** Galeri
- 14eg nos Iau, 7.45pm **Aberystwyth** Canolfan y Celfyddydau
- 21ain Thursday, 7.30pm **Cardiff** Theatr Sherman (Stiwdio)

A hithau'n un o lwyddiannau Gŵyl Ymylon Caeredin y llynedd, mae drama newydd daer Michael Mears yn archwilio'r digwyddiadau sy'n amgylchu'r 'camgymeriad' trychinebus a lansiodd ein hoes niwclear.

1942. Ar gwrt sboncen yn Chicago cynhelir arbrawf gwyddonol llachar, a fydd, dair blynedd yn ddiweddarach, yn dinistrio dinas ac yn newid y byd – am byth. Mae dau actor, un Prydeinig, un Japaneaidd, yn actio hanes cymhellol gwyddonydd disglair o Hwngaria, y peilot Americanaidd a oedd yn gyfrifol am ollwng y bom ar Hiroshima, a merch ymroddgar o Japan, mewn drama chwim ei symudiad am y peryglon sy'n codi pan fydd bodau dynol yn meiddio datgloi pŵer anhygoel natur.

Da chi, peidiwch â methu'r sesiwn holi ac ateb a gynhelir gyda'r cast ar ôl y sioe!


Simon Richardson

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

**gwefan** *www.cndcymru.org*
**e-bost** *heddwch@cndcymru.org*
**trydar** *@cndcymru*
**instagram** *@cndcymru*
**gweplyfr** *www.facebook.com/cndcymru/*

# YMUNWCH Â NI NAWR!

*www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth/*
O dan 25? Gellwch ymuno am ddim!

# CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd:**
*Yn disgwyl ei ethol*

**Is-gadeiryddion:**
John Cox *drjohncox121@gmail.com*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*

**Trysorydd ac Aelodaeth:**
Michael Freeman *trysorydd@cndcymru.org*
*9 Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE*

**Ysgrifenydd Cenedlaethol:**
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor a Thîm Cefnogi:**
Sam Bannon *sampbannon@gmail.com*
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Jill Gough *jillegough@gmail.com*
Awel Irene *awel.heddwch@gmail.com*
Bethan Siân Jones *bsj1@aber.ac.uk*
Alison Lochhead *alisonlochhead358@gmail.com*
Linda Rogers *lindaclarerogers@btinternet.com*

# HEDDWCH


**HEDDWCH yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn** *www.cndcymru.org*

**Golygydd:** Philip Steele
*editor@cndcymru.org*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunio:** Moya O'Rourke
*hello@moyaorourke.com*

**Argraffwyd gan:** Gwasg Minuteman, Wrecsam

Nid yw cynnwys Heddwch o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf **HEDDWCH** yn ymddangos ym mis Rhagfyr 2023.



*Paul Peter Piech (1920-1996)*